



# Cefnogi ein dysgwyr Cronfa ariannol wrth gefn (CAWG) Nodiadau canllaw cais gofal plant 2022/23

Cyn cwblhau eich [Ffurflen Gais Gofal Plant \(CAWG\)](#), mae'n bwysig eich bod chi'n darllen y nodiadau canllaw hyn. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, neu os oes gennych unrhyw wahaniaethu wrth gwblhau eich cais, mae ein tîm Gwasanaethau Dysgwyr ar gael i helpu.

## Ydw i'n gymwys?

I fod yn gymwys am gymorth gyda'ch costau gofal plant o'r CAWG, **rhaid i'ch incwm cartref fod yn £23,000 neu'n is, ac mae'n rhaid i chi fod yn derbyn**

- LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg)
- GDLIC (Grant Dysgu Llywodraeth Cymru) NEU
- Tystiolaeth o galedi ariannol

Cwblhewch a chyflwynwch eich cais ar gyfer elfen gofal plant y FCF tra's ydygc yn disgwyl am eich hysbysiad dyfarniad LCA neu GDLIC.

### **DYDDIAD CAU ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 30 Medi 2022**

(Derbynnir ceisiadau ar ol y dyddiad cau ar yr amod bod arian ar gael o hyd gan y coleg)

- Cyn gwneud eich cais i'r FCF rhaid i chi fod wedi gwneud ymholiadau ynghylch y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael gan eich Awdurdod Lleol neu Ganolfan Waith
- Os yw eich plentyn yn 3 neu 4 oed gallech hawlio 30 awr o assysg gynnar a gofal plant yr wythnos, am hyd at 48 wythnos y flwyffyn drwy gynllun 'Cynnig Gofal Plant Cymru'. Mae'r cynllun wedi'i ymestyn yn ddiweddar i gynnwys unrhyw un sy'n dymuno dychwelyd i addysg ac sydd angen cymorth gyda chostau gofal plant. Cliciwch [yma](#) i ddarganfod mwy.
- Bydd Coleg Gwent yn cefnogi:
  - Talu hyd at 90% o'ch costau gofal plant, hyd at uchafswm o £45 y diwrnod
  - Un plentyn yn unig
- Rhaid i'ch presenoldeb yn y coleg aros yn uwch na 85% neu terfynir eich taliadau gofal plant
- **Gwneir taliadau i ddarparwyr gofal plant yn [fisol fel ol-daliadau](#)**

## Incwm eich cartref

Er mwyn i ni allu asesu eich cymhwysra i gael cymorth ariannol, rhaid i chi ddarparu'r **HOLL** fanylion a thystiolaeth o incwm eich cartref ar eich cyfer chi a'ch partner/priod.

**RHAID I CHI HEFYD GYFLWYNO DATGANIADAU BANC TRI MIS YN OLYNOL WEDI'U DYDDIO O FEWN Y 6 MIS DIWETHAF.**

Mae'r mathau o incwm yr ydym yn eu hystyried wedi'u rhestru isod, ynghyd ag enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y gallwch eu darparu. **Nodwch os gwelwch yn dda, y bydd methiant i ddarparu'r holl dystiolaeth YN arwain at wrthod eich cais.**

Incwm eich cartref	Enghreifftiau o dystiolaeth
Cyflog(au)	4 slip cyflog wythnosol yn olynol neu 2 slip cyflog misol
Credyd Treth Gwaith	Hysbysiad Credyd Treth TC602 2021/22, RHAID darparu pob tudalen
Credyd Treth Plant (gan gynnwys elfen gofal plant)	Hysbysiad Credyd Treth TC602 2021/22, RHAID darparu pob tudalen
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Llythyr DWP yn nodi faint rydych yn ei gael bob wythnos/pythefnos
Credyd Cynhwysol	Datganiad LLAWN Credyd Cyffredinol (3 o'r cyfondau asesu diweddaraf)

Lwfans Gofalwr	Llythyr DWP yn nodi faint rydych yn ei gael bob wythnos/pythefnos
Budd-dal Tai	Llythyr DWP yn nodi faint rydych yn ei gael bob wythnos/pythefnos
Budd-dal y Dreth Gyngor	Llythyr DWP yn nodi faint rydych yn ei gael bob wythnos/pythefnos
Cynhaliaeth Plant	Llythyr neu ddatganiad banc yn nodi ar gyfer pwy mae'r gynhaliaeth plant
Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)	Prawf o unrhyw incwm arall a dderbynnir i'r cartref

## Nodyn Pwysig

Ni fyddwn yn cysylltu â'ch darparwr gofal plant nes ein bod wedi cadarnhau eich bod yn gymwys ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

**Eich** cyfrifoldeb chi yw talu eich costau gofal plant tan fydd y coleg wedi cytuno'n ffurfiol i gyfrannu tuag at y gost.

Os ydych wedi derbyn cymorth gyda chostau gofal plant yn flaenorol ac wedi tynnu'n ôl oddi ar eich cwrs, neu yn astudio cwrs ar yr un lefel (heb symud ymlaen i lefel uwch), efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried.

**Rhaid i chi ein hysbysu am unrhyw newid i'ch darpariaeth gofal plant o fewn 7 diwrnod i'r newid ddigwydd.** Mae newidiadau yn cynnwys newid i gostau'r darparwr neu'r dyddiau o ofal sydd eu hangen, os ydych yn derbyn cymorth gan Dechrau'n Deg (plant sy'n troi'n ddyflwydd neu dair). Llenwch [Ffurflen Newid Manylion Gofal Plant](#)

## Sut caf wybod os yw fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd yr holl gyfathrebu gyda chi yn digwydd dros e-bost i'ch cyfrif e-bost coleg, a gallwch gael mynediad at hwn ar [CG Connect](#). Nid yw cyllid yn warantedig nes eich bod yn cael cadarnhad gan Coleg Gwent. Mae cefnogaeth FCF yn ddewisol ac nid yw'n hawl, mae cyllid yn brin ac nid oes unrhyw ddyfarniad yn warantedig. Yn ogystal, mae dyraniadau yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau cyllidebol y gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.

Ni ddylai eich ymrwymiad i'r cwrs hwn fod yn seiliedig ar dderbyn y gefnogaeth hon yn unig. Os ydych yn gadael y coleg cyn diwedd eich cwrs, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi ad-dalu cyfanswm neu ran o'ch dyfarniad FCF.

## Beth os yw fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon hysbysiad atoch i'ch cyfrif e-bost coleg, a gallwch gael mynediad at hwn ar [CG Connect](#).

Os hoffech apelio'r penderfyniad, mae gennych 14 diwrnod i wneud hynny o ddyddiad yr e-bost. Dylai apelïadau gynnwys eich rhesymau dros apelio, unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallwch ei darparu, a dylid eu hanfon at: [financesupport@colegwent.ac.uk](mailto:financesupport@colegwent.ac.uk). Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich apêl cyn pen 14 diwrnod o'i derbyn.